**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd Plas Tan y Bwlch |
| **DYDDIAD** | 9 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD PLAS TAN Y BWLCH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Ty, Plas Tan y Bwlch |
| **PWRPAS** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r bwrdd am y 2 fis diwethaf a rhoi cipolwg ar y flwyddyn i ddod |

**<u>*D*iweddariad Plas Tan y Bwlch 2021/2022</u>**

Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dros y Nadolig a Ionawr, nid oedd y Plas yn gallu gweithredu fel arfer a arweiniodd at orfod canslo archeb grŵp, arweiniodd hyn at golled o £9,600. Yn ffodus, mae'r grŵp yma wedi penderfynu ail archebu gyda ni ar gyfer 2023/2024 oedd yn golygu ein bod yn gallu cadw 10% fel blaendal, bydd gweddill yr arian yn cael ei ad-dalu.

Cafodd cyfarfodydd a chinio hefyd eu canslo a'u haildrefnu oherwydd nad oedd cwsmeriaid yn teimlo'n hyderus i gymysgu wrth i nifer y COV-19 gynyddu. Fe benderfynon ni na fydden ni bellach yn cymryd unrhyw archebion newydd ym mis Ionawr nes bod cyfyngiadau wedi eu codi, roedd PTYB yn gweithredu gyda staff sgerbwd gydag un aelod o staff I mewn pob dydd ar gyfer cyfarfodydd oedd eisoes yn y dyddiadur i fynd yn eu blaenau. Roedd hyn yn galluogi staff a oedd wedi adeiladu TOIL dros y cyfnodau prysur i gymryd amser i ffwrdd a chael eu balans i lawr i 0 eto.

Nawr bod cyfyngiadau wedi'u codi byddwn yn agor fel arfer ac yn cymryd archebion newydd o fis Chwefror ymlaen.

**<u>Materion Cynnal A Chadw</u>**

Wrth i ni agosáu at ddiwedd Chwefror, mae gennym ni archeb fawr sy'n gofyn am bob ystafell wely ac yn anffodus, mae gennym ni broblemau gyda'r ystafelloedd canlynol – 6, 8, 10 a 15. Y newyddion da yw y bydd modd defnyddio ystafelloedd 6 ac 8 ar ôl I aelod o staff cynnal a chadw ail beintio ond bydd y lleithder yn parhau i wneud ei ffordd drwodd yn y pen draw, yn anffodus ni ellir defnyddio ystafelloedd 10 a 15 sef ystafelloedd dwbl/triphlyg oherwydd difrifoldeb y lleithder, ac mae hyn yn bryder o fis Mawrth ymlaen.

Fel y gwelwch o'r tabl isod, rwyf wedi rhoi cipolwg ar yr archebion sydd gennym yn dod i mewn ddiwedd mis Chwefror a fydd angen i'r ystafelloedd hyn fod yn barod, bydd y tabl hefyd yn rhoi cipolwg ar ein rhagolwg ariannol ar gyfer 2022 hyd yn hyn. (nid yw'r tabl hwn yn cynnwys cyfarfodydd dydd a hefyd Gwely a Brecwast).

| **GROUP BOOKINGS 2022** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Jan-22 | Hans - Futura Foods Chalet Hire | 10.01.2022 | £800.00 | |
| Feb-22 | St Helens College - Estelle Linney | 05.02.2022 | £1,782.82 | |
| Feb-22 | 2 x sewing groups (20) Full board | 25.02.2022 | £5,400.00 | |
| Mar-22 | Manchester University | 28.03.2022 | £21,358.24 | |
| | Joyce Jones - CANCELLED | 05.03.2022 | £0.00 | |
| Apr-22 | Bangor University | 04.04.22 | £3,500.00 | |
| May-22 | Allstree Ramblers | 16.05.2022 | £5,500.00 | |
| | Simon Williams - Estimate | 16.05.2022 | £2,500.00 | |
| | Twickenham = Estimate | 16.05.2022 | £1,200.00 | |
| | St Helens College - Estelle Linney | 07.05.2022 | £2,798.00 | |
| | St Helens College - Estelle Linney | 21.05.2022 | £2,788.60 | |
| Jun-22 | Lisa Bushby - Imperial College | 19.06.2022 | £20,973.00 | |
| | Ysgol Santes Tudfil | 06.06.2022 | £14,500.00 | |
| | Peter Brindley - Postal Estimate awaiting details | 16-19th June | £6,000.00 | |
| | St Helens College - Estelle Linney | 11.06.2022 | £3,209.00 | |
| | NRW | 29.06.2022 | £3,335.40 | |
| Jul-22 | Moelwyn Gym Club | 01.07.2022 | £7,980.00 | |
| | Natural Rescouces Wales | date tbc | £7,000.00 | |
| | Laura and John wedding | 09.07.2022 | £4,656.00 | |
| Aug-22 | | | | |
| Sep-22 | University of Oxford | 29.09.2022 | £5,119.68 | |
| | Red Bull Hardline | 05.09.2022 | £25,500.00 | |
| | Jo Porter - Estimate | 22.09.2022 | £9,500.00 | |
| Oct-22 | Helen & Kev | 22.10.2022 | £4,950.00 | |
| october | Julia Johnson - estimate | | £9,500.00 | |
| | | | | |
| | | | £169,850.74 | |

**Model Busnes Plas Tan Y Bwlch 2022**

Wedi adolygu'r model busnes presennol oedd yn bennaf yn llety Gwely a Brecwast yn unig, gyda'r adborth gan y gwesteion mae'n amlwg bod galw am brydau nos felly rwyf wedi penderfynu bydd prydau nos yn parhau i gael eu cynnig i grwpiau mawr a byddwn hefyd yn cynnig prydau ar gyfer gwesteion annibynol rhai dyddiau o'r wythnos. Gyda phenwythnosau yn fwy poblogaidd na dyddiau'r wythnos, mae'n gwneud synnwyr cynnig prydau ar Ddydd Iau, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn. Yn anffodus, nid ydym wedi gallu disodli ein cogydd a adawodd ym mis Hydref sy'n gadael un Cogydd a un Cogydd Cynorthwyol. Byddai angen cogydd arall I allu gwneud prydau nos yn gyson,tan bod y swydd honno wedi'i llenwi mae staff y Plas wedi cytuno I helpu i gynorthwyo os ydynt yn gallu gwneud Cwrs Bwyd ac Hylendid. Er bod hyn yn creu cwmpas gwell nid yw'n creu'r rhwyd ddiogelwch i ni pan fydd staff i ffwrdd yn sâl, ar wyliau neu'n methu gweithio oherwydd amgylchiadau annisgwyl, rhaid i ni hefyd ystyried y lefelau o straen y gallai ei achosi i staff wrth ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ein cyfnod prysuraf.

Mae tîm y dderbynfa bellach wedi'i staffio'n ddigonol ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr gan bod Plas yn rhedeg yn llawer mwy esmwyth yn ogystal â sicrhau nifer o archebion grŵp mewn modd digonol ac amserol. Mae'r tîm glanhau yn ymdopi â lefel y gwaith nawr ond bydd yn ei chael hi'n anodd yn yr haf fel y gwnaethant yn llynedd ac mi arweiniodd at staff I adael. Ar hyn o bryd mae gennym aelod o'r tîm I ffwrdd tymor hir, bydd angen adolygu hyn cyn i'n cyfnod prysur ddechrau, er bod gennym bellach a perthynas waith gyda Mynydd Cleaning, asiantaeth allanol a weithiodd yn dda gyda ni llynedd, nid yw hyn yn ariannol ymarferol os ydym am gyrraedd y targed a osodwyd ond maen't yna fel cefnogaeth os oes angen.

Fel y gallwch weld o'r archebion grŵp sydd gennym yn ein dyddiadur ar gyfer 2022, mae ysgolion a prifysgolion yn awyddus i ddod yn ôl ac mae hyn yn rhywbeth roeddwn i eisiau ei ymgorffori yn ôl yn ein cynllun busnes gan fy mod yn teimlo bod potensial i'r tymor tawel yn Plas fod yn llawn.

Rydym hefyd yn adolygu'r strategaeth brisio ar hyn o bryd a byddwn yn cynyddu prisiau o leiaf 10%.

Prisiau yn 2020/2021
Dwbl / Twin - £85.00
Teulu - £150.00
Sengl - £60.00

Prisiau newydd yn 2022/2023
Dwbl/Twin - £93.50
Teulu £165.00
Sengl - £66.00

Byddwn yn gweithio ar y model busnes wrth i ni fynd ymlaen a byddwn yn gallu diweddaru ymhellach.